**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

9 Chwefror 2023

Annwyl Llywydd,

Y Bil Bwyd (Cymru) – cais i estyn y terfyn amser cyflwyno adroddiad Cyfnod 1

Roedd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi bwriadu cymryd tystiolaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru, a’r Trefnydd ar y Bil Bwyd (Cymru) ar 16 Chwefror. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau y tu allan i reolaeth y Gweinidog a’r Pwyllgor, rydym wedi gorfod aildrefnu'r sesiwn dystiolaeth â hi i 1 Mawrth.

Yn wreiddiol, roeddem i fod i gynnal ein hail sesiwn dystiolaeth gyda Peter Fox AS yn rhinwedd ei rôl fel yr Aelod sy’n gyfrifol, ar 1 Mawrth. Fodd bynnag, mae Peter a minnau’n cytuno y byddai’n ddymunol i Peter a’r Aelodau gael amser i ystyried tystiolaeth y Gweinidog cyn inni glywed ganddo ef, a hynny er mwyn sicrhau’r craffu gorau posibl. Gan hynny, rydym yn bwriadu symud ein sesiwn gyda Peter i 8 Mawrth.

O ganlyniad i aildrefnu ein sesiwn gyda Peter ac amseriad toriad y Pasg, rwy’n gofidio na fydd gan y Pwyllgor ddigon o amser i ystyried tystiolaeth y Gweinidog a thystiolaeth yr Aelod sy’n gyfrifol ac adlewyrchu'r dystiolaeth honno yn ein Hadroddiad ar Egwyddorion Cyffredinol. Felly, rwy'n ysgrifennu i ofyn am estyniad byr i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Bwyd (Cymru), o ddydd Gwener 28 Ebrill i ddydd Gwener 12 Mai.

Byddai'r newid hwn yn golygu aildrefnu'r ddadl a drefnwyd ar gyfer 10 Mai o dan linell amser wreiddiol Peter Fox ac, felly, yn amodol ar gymeradwyo'r Egwyddorion Cyffredinol, ohirio dechrau trafodion Cyfnod 2. Os yw’r Pwyllgor Busnes yn fodlon, o dan yr amserlen

newydd, gellid cynnal y ddadl ar 24 Mai. Yn amodol ar y cynnydd a wneir, byddai hynny'n golygu dechrau Cyfnod 2 ar 25 Mai a byddai angen cynnal trafodion Cyfnod 2 ar ddyddiad rhwng 15 Mehefin a 14 Gorffennaf.

Rwyf wedi trafod y mater hwn â Peter ac mae'n cytuno y byddai estyniad byr yn well er mwyn hwyluso gwaith craffu o ansawdd gwell ar y Bil ac, fel y cyfryw, mae'n fodlon â'r newid arfaethedig.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Peter Fox AS yn rhinwedd ei rôl fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, at Huw Irranca-Davies AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at Peredur Owen Griffiths AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cofion cynnes,

Paul Davies

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.